Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

**Ymateb Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys i:**

**Atal Dynladdiad: Archwiliad o gyfraniad yr heddlu tuag at atal dynladdiad**

Rwy'n cydnabod yr argymhellion a amlinellir yn yr adroddiad hwn, a byddaf yn monitro cynnydd yr Heddlu o ran eu gweithredu. Trafodwyd ymateb yr Heddlu i'r archwiliad hwn yng nghyfarfod y Bwrdd Plismona ar 21 Medi 2023.

Mae'n galonogol bod yr adroddiad hwn yn nodi bod y rhan fwyaf o heddluoedd yn medru nodi patrymau ac achosion dynladdiad yn effeithiol, a'u bod nhw'n medru blaenoriaethu a phennu'r adnoddau cywir ar gyfer mynd i'r afael â nhw. Nid oedd Heddlu Dyfed-Powys yn un o'r heddluoedd a archwiliwyd.

Nodaf isod fy sylwadau a'r sicrwydd yr wyf wedi'i dderbyn gan y Prif Gwnstabl mewn perthynas â'r ddau argymhelliad o fewn yr adroddiad sy'n berthnasol ar gyfer heddluoedd.

**Argymhelliad 2**

**Erbyn 31 Awst 2024, dylai prif gwnstabliaid yng Nghymru a Lloegr lunio ymagwedd ar gyfer sicrhau y gall eu heddlu gynhyrchu adroddiad dadansoddol mewn perthynas â'i ymchwiliadau i farwolaethau'n rheolaidd. Bydd hyn yn helpu'r heddlu i:**

- **ddeall patrwm adroddiadau marwolaeth ledled yr ardal heddlu'n well, gan ddefnyddio data'r heddlu a gwybodaeth a gasglwyd gan sefydliadau eraill, gan gynnwys y GIG ac awdurdodai lleol; a**
- **nodi unrhyw gyfres o adroddiadau marwolaeth cysylltiedig.**

Fel Cadeirydd Rhwydwaith Gwella Data a Dadansoddi Arloesol Cymru, Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys, a chyn Brif Ddadansoddydd, yr wyf wedi mynegi fy mhryderon droeon am yr angen dybryd i fynd i'r afael â'n prinder cyfunol o ddadansoddwyr. Mae'r prinder hwn yn cael ei yrru gan sawl ffactor, gan gynnwys anawsterau o ran recriwtio a chadw unigolion sydd wedi'u hyfforddi'n briodol, yn ogystal â'r cyfyngiadau a osodir ar heddluoedd drwy'r cyllid ychwanegol gan y llywodraeth ar gyfer swyddogion rheng flaen. Er bod y cynnydd ariannol yn cael ei groesawu, mae angen hyblygrwydd ar heddluoedd i ymgymryd â recriwtio cytbwys, gan alluogi buddsoddi digonol yn yr arbenigeddau sydd eu hangen yn lleol. Yr wyf hefyd yn gweithio i sicrhau bod pob heddlu yng Nghymru'n rhoi data i'r Gronfa Ddata Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw, a fydd yn cefnogi gwasanaethau yng Nghymru i gysylltu data er mwyn hysbysu ymchwil a chynllunio yn y dyfodol.

Cwblhaodd yr Heddlu broffil problemus Dynladdiad yn gynharach eleni, gan ddefnyddio data o ddynladdiadau a throseddau a fu bron â digwydd rhwng Ebrill

2019 a Mawrth 2022. Mae'r Prif Gwnstabl wedi fy sicrhau y bydd hyn yn cael ei loywi'n rheolaidd.

Byrddau amlasiantaeth â Phrotocolau Rhannu Gwybodaeth yw'r bwrdd Trais Difrifol a Throseddu Trefnedig, y bwrdd Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol a byrddau diogelu rhanbarthol. Mae'r Ddyletswydd Trais Difrifol wedi ail-bwysleisio'r ddyletswydd sydd ar bartneriaid statudol i gydweithio i rannu gwybodaeth, a thrwy hynny, lleihau trais difrifol (sy'n cynnwys dynladdiad) ac atal pobl rhag cymryd rhan mewn trais difrifol. Fel rhan o'r gwaith hwn, cynhaliodd Heddlu Dyfed-Powys ddigwyddiad rhannu gwybodaeth gydag asiantaethau statudol ac anstatudol i esbonio'n fanwl ei gylch gorchwyl ar gyfer asesiad anghenion strategol y ddyletswydd trais difrifol a pha ddata oedd ei angen i'w hysbysu. Cafodd y digwyddiad hwn groeso brwd ac mae ffynonellau data ychwanegol wedi'u darparu i'r dadansoddydd o ganlyniad i hyn.

Mae'r Heddlu hefyd yn cymryd rhan yn y prosiect Adolygiad Diogelu Unedig Sengl (ADUS). Mae'r prosiect wedi datblygu Ystorfa Ddiogelu Cymru a fydd yn dal yr holl adroddiadau hanesyddol ac adroddiadau cyfredol (er enghraifft, Adolygiadau Ymarfer Oedolion a Phlant, Adolygiadau Dynladdiad Iechyd Meddwl ac Adolygiadau Dynladdiad Domestig). Gan ddefnyddio cyfrifiadureg a thechnolegau dysgu peiriant, bydd yr ystorfa'n darparu dysgu a goruchwylio thematig Cymru gyfan unigryw.

Byddaf yn ceisio diweddariad ar gynnydd yr Heddlu yn erbyn yr argymhelliad hwn drwy fy Mwrdd Plismona, sef y fforwm lle'r wyf yn dal y Prif Gwnstabl i gyfrif, cyn 31 Awst 2024.

## Argymhelliad 3

**Erbyn 1 Rhagfyr 2023, dylai prif gwnstabliaid sicrhau y gall eu heddlu nodi gwersi o ddigwyddiadau trais difrifol a dynladdiadau yn gyflym. Dylai'r broses fedru cynnwys sefydliadau partner lle bo'n briodol, fel bod modd dysgu gwersi'n ehangach.**

Yr wyf yn awyddus i sicrhau bod Heddlu Dyfed-Powys yn cynnal cysylltiad ag Ystorfa Ddiogelu Cymru, sy'n cartrefu holl adolygiadau marwolaeth ac adolygiadau ymarfer Cymru. Menter ymchwil parhaus yw'r prosiect hwn, sy'n cael ei gyflawni ar y cyd â'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol a Llywodraeth Cymru. Mae'n ceisio gwella arferion diogelu gweithwyr proffesiynol, megis swyddogion heddlu, gweithwyr cymdeithasol a'r rhai sy'n gweithio yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol, yn y dyfodol drwy ystorfa ddigidol er mwyn caniatáu i ddysgu gwell ddeillio o adolygiadau marwolaeth drwy dechnegau dysgu peiriant a chloddio testun o'r radd flaenaf.

Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi dweud wrthyf eu bod nhw'n datblygu strategaeth atal dynladdiad i dargedu'r ardaloedd a nodwyd fel y rhai perygl uchaf o fewn eu proffil problem dynladdiad ac Asesiad Anghenion Strategol y Ddyletswydd Trais Difrifol. Bydd yr Asesiad Anghenion Strategol yn nodi anghenion, neu "fylchau", rhwng y sefyllfa bresennol yn ardal Dyfed-Powys a'r canlyniadau dymunol – mae hwn yn gam allweddol o ran adeiladu cynllun cyflenwi ar gyfer y Ddyletswydd Trais Difrifol. Dylai'r Asesiad Anghenion Strategol, sy'n ddarn o waith dadansoddol sylweddol ar drais difrifol, gael ei gwblhau erbyn Hydref 2023. Byddaf yn ceisio diweddariad ar gynnydd yr Heddlu yn erbyn y Ddyletswydd Trais Difrifol drwy fy Mwrdd Plismona, sef y fforwm lle'r wyf yn dal y Prif Gwnstabl i gyfrif, ym mis Tachwedd 2023.